

|                   |                                                      |                                                                                     |
|-------------------|------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------|
| Adroddiad i       | <b>Yr Awdurdod Tân ac Achub</b>                      |  |
| Dyddiad           | <b>20 Gorffennaf 2026</b>                            |                                                                                     |
| Swyddog Arweiniol | <b>Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol</b> |                                                                                     |
| Swyddog Cyswllt   | <b>Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael</b>     |                                                                                     |
| Pwnc              | <b>Adroddiad Alldro Rheoli Trysorlys 2025/26</b>     |                                                                                     |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) am weithgarwch rheoli trysorlys ac am gydymffurfiaeth â'r dangosyddion darbodus rheoli trysorlys ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2025 hyd at 31 Mawrth 2026.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2 Ym mis Rhagfyr 2003, mabwysiadodd yr Awdurdod God Ymarfer *Treasury Management in the Public Services* (2021) y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (Cod CIPFA), sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gymeradwyo, fan lleiaf, adroddiadau alldro blynyddol ac adroddiadau hanner blwyddyn ynghylch rheoli trysorlys.
- 3 Roedd Cod CIPFA hefyd yn cynnwys gofyniad newydd i roi adroddiadau chwarterol ar y dangosyddion rheoli trysorlys o fis Ebrill 2023 ymlaen. Mae'r dangosyddion darbodus nad ydynt yn rhai trysorlys wedi'u cynnwys yn adroddiad monitro refeniw a chyfalaf arferol yr Awdurdod.
- 4 Cymeradwywyd strategaeth rheoli trysorlys yr Awdurdod ar gyfer 2025/26 mewn cyfarfod ar 28 Ebrill 2025. Gan fod yr Awdurdod yn benthyca ac yn buddsoddi symiau sylweddol o arian, rhaid rhoi ystyriaeth i risgiau ariannol, gan gynnwys colli arian a fuddsoddwyd ac effaith newid mewn cyfraddau llog ar refeniw. Mae nodi, monitro a rheoli risg yn llwyddiannus yn parhau i fod yn rhan ganolog o strategaeth rheoli trysorlys yr Awdurdod.
- 5 Yn ystod y flwyddyn, roedd lefelau benthyca a buddsoddi'r Awdurdod yn gyfforddus o fewn y terfynau a osodwyd yn wreiddiol. Ni chafwyd unrhyw ddifffygdlu newydd gan fanciau lle mae'r Awdurdod wedi adneuo arian.

## ARSYLWADAU GAN Y PWYLLGOR ARCHWILIO

- 6 Derbyniodd y Pwyllgor Archwilio Adroddiad Rheoli Trysorlys ar gyfer 2025/26 a chraffu arno yn ei gyfarfod ar 15 Mehefin 2026. Nododd y Pwyllgor Archwilio y gweithgareddau a derbyniodd sicrwydd ar gydymffurfio â'r dangosyddion darbodus cymeradwy.

## ARGYMHELLION

7 Gofynnir i'r Aelodau:

**i) Cymeradwyo'r gweithgareddau rheoli trysorlys a'r dangosyddion darbodus ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026.**

## CYD-DESTUN ALLANOL

- 8 Nodweddwyd y flwyddyn ariannol gan ansicrwydd byd-eang cynyddol, wedi'i ysgogi'n bennaf gan gyflwyno "Diwrnod Rhyddid" tariffau masnach yr Unol Daleithiau ym mis Ebrill 2025 a'r achosion o wrthdaro rhwng yr Unol Daleithiau/Israel ac Iran ym mis Chwefror 2026. Roedd ymatebion cychwynnol y farchnad i'r tariffau yn negyddol; fodd bynnag, sefydlogodd yr amodau yn ystod y misoedd a ddilynodd gyda gwelliannau mewn marchnadoedd ecwiti a rhywfaint o lacio mewn arenillion bondiau. Yn y DU, amharwyd ar y sefydlogrwydd hwn gan bryderon parhaus ynghylch y rhagolygon economaidd a sefyllfa ariannol y llywodraeth, gan arwain at gynnydd mewn arenillion giltiau wrth i fuddsoddwyr geisio enillion uwch.
- 9 Roedd Cyllideb yr Hydref yn y DU yn llai helaeth nag a ragwelwyd, a roddodd rywfaint o sicrwydd i farchnadoedd. Cyfrannodd hyn at gyfnod o arenillion giltiau yn gostwng, chwyddiant yn cymedroli, a disgwyliadau uwch o ostyngiadau yng nghyfraddau llog Banc Lloegr (BoE). Cyn i'r tensiynau geo-wleidyddol gynyddu, roedd chwyddiant wedi bod ar lwybr tuag i lawr, gyda'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yn 3% ym mis Chwefror 2026. Fodd bynnag, fe wnaeth y gwrthdaro amharu'n sylweddol ar y duedd hon, gan sbarduno cynnydd ym mhrisiau olew a nwyddau a chreu ansicrwydd newydd ynghylch rhagolygon chwyddiant.
- 10 Parhaodd twf economaidd yn y DU yn wan drwy gydol y cyfnod, gydag ond ychydig iawn o gynnydd chwarterol a dim twf wedi'i gofnodi ym mis Ionawr 2026. Dangosodd amodau'r farchnad lafur arwyddion o feddalwch, gyda chynnydd bach mewn diweithdra a lefelau cyflogaeth sefydlog. Er y disgwylir i bwysau chwyddiant gynyddu yn y tymor byr, mae amodau tawel y farchnad lafur yn debygol o gyfyngu ar dwf cyflogau, gan leihau'r risg o bwysau chwyddiant parhaus o enillion.
- 11 Daeth polisi ariannol yn fwyfwy ansicr wrth i'r flwyddyn fynd yn ei flaen. Cynhaliodd Banc Lloegr Gyfradd y Banc ar 3.75% yn dilyn gostyngiadau cynharach, gyda chyfeiriad polisi yn dibynnu ar y cydbwysedd esblygol rhwng chwyddiant a risgiau twf. Mabwysiadodd banciau canolog byd-eang ddulliau yr un mor ofalus: oeddodd Cronfa Ffederal yr Unol Daleithiau newidiadau i gyfraddau ar ôl gostyngiadau cynharach, gan arwyddo toriadau posibl yn y dyfodol, a chadwodd Banc Canolog Ewrop gyfraddau wrth adolygu ei ragolygon i adlewyrchu risgiau chwyddiant uwch a rhagolygon twf gwannach. Mae'r disgwyliadau cyfredol yn awgrymu y gallai cyfraddau llog aros yn sefydlog yn y tymor byr, gyda newidiadau posibl i fyny neu i lawr yn dibynnu ar ddatblygiadau economaidd.

- 12 Parhaodd marchnadoedd ariannol yn anwadal trwy gydol y flwyddyn. Ar ôl adferiad cychwynnol o ostyngiadau sy'n gysylltiedig â thariffau, gostyngodd marchnadoedd ecwiti yn sydyn tuag at ddiwedd y flwyddyn oherwydd y gwrthdaro geo-wleidyddol, gyda mynegeion y DU yn gostwng yn sylweddol. Profodd arenillion bondiau amrywiadau nodedig, ac er bod amodau credyd yn tynhau yn ystod cyfnodau o straen, roedd dangosyddion allweddol yn parhau i fod o fewn terfynau derbyniol. Disgwylir anwadalrwydd parhaus, a bydd risg credyd yn parhau i gael ei fonitro'n agos yn unol ag arferion rheoli trysorlys.

## CYD-DESTUN LLEOL

- 13 Ar 31 Mawrth 2026, roedd gan yr Awdurdod fenthyciadau net o £15.76m yn deillio o wariant cyfalaf. Mae'r angen sylfaenol i fenthycia at ddibenion cyfalaf yn cael ei fesur gan y Gofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR), ac adnoddau mantolen yw'r adnoddau sylfaenol sydd ar gael i'w buddsoddi. Mae'r ffactorau hyn yn cael eu crynhoi yn [Nhabl 1](#) isod.

**Tabl 1: Crynodeb o'r Fantolen**

|                            | <b>31.03.25</b><br><b>Gwirioneddol</b><br><b>£m</b> | <b>31.03.26</b><br><b>Gwirioneddol</b><br><b>£m</b> |
|----------------------------|-----------------------------------------------------|-----------------------------------------------------|
| CFR y Gronfa Gyffredinol   | 31.01                                               | 26.86                                               |
| Benthycia allanol          | -19.07                                              | -15.76                                              |
| <b>Benthycia mewnol</b>    | <b>11.94</b>                                        | <b>11.10</b>                                        |
| Llai: Adnoddau mantolen    | -14.46                                              | -14.46                                              |
| Llai: Buddsoddiadau Newydd | 2.52                                                | 3.36                                                |
| <b>Benthycia newydd</b>    | <b>0.00</b>                                         | <b>0.00</b>                                         |

- 14 Mae Tabl 1 yn cadarnhau bod benthyciadau net yr Awdurdod yn is na'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR). Dangosir y sefyllfa rheoli trysorlys ar 31 Mawrth a'r newid yn ystod y flwyddyn yn [Nhabl 2](#) isod.

**Tabl 2: Crynodeb Rheoli Trysorlys**

|                                        | <b>31.3.25</b><br><b>Balans</b><br><b>£m</b> | <b>Symudiad</b><br><b>£m</b> | <b>31.03.26</b><br><b>Balans</b><br><b>£m</b> | <b>31.03.26</b><br><b>Cyfradd</b><br><b>%</b> |
|----------------------------------------|----------------------------------------------|------------------------------|-----------------------------------------------|-----------------------------------------------|
| Benthycia hirdymor                     | 8.46                                         | 3.22                         | 11.68                                         | 2.81 - 4.80                                   |
| Benthycia byrdymor                     | 10.61                                        | -6.53                        | 4.08                                          | 2.81 - 6.35                                   |
| <b>Cyfanswm y benthycia</b>            | <b>19.07</b>                                 | <b>-3.31</b>                 | <b>15.76</b>                                  |                                               |
| Buddsoddiadau byrdymor                 | 0.00                                         | 0.00                         | 0.00                                          |                                               |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | -2.52                                        | -1.10                        | -3.62                                         | 3.00 - 3.51                                   |
| <b>Cyfanswm y buddsoddiadau</b>        | <b>-2.52</b>                                 | <b>-1.10</b>                 | <b>-3.62</b>                                  |                                               |
| <b>Benthycia net</b>                   | <b>16.55</b>                                 | <b>-4.41</b>                 | <b>12.14</b>                                  |                                               |

## STRATEGAETH A GWEITHGARWCH BENTHYCA

- 15 Yn unol â'r strategaeth trysorlys, prif amcan yr Awdurdod wrth fenthyca yw mabwysiadu strategaeth risg isel, gan gydbwysu costau llog isel a chael sicrwydd cost trwy gydol y cyfnod y mae angen cyllid ar ei gyfer. Ail nod yw sicrhau hyblygrwydd i aildrafod benthyciadau pe bai cynlluniau hirdymor yr Awdurdod yn newid. Mae strategaeth fenthyca'r Awdurdod yn parhau i ymdrin â mater allweddol fforddiadwyedd, a hynny heb gyfaddawdu ar sefydlogrwydd tymor hwy y portffolio dyled.
- 16 Cyfradd sicrwydd y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLb) ar gyfer benthyciadau aeddfedrwydd 10 mlynedd oedd 5.38% ar ddechrau'r cyfnod a 5.72% ar y diwedd. Y gyfradd sicrwydd aeddfedrwydd 10 mlynedd isaf ar gael oedd 5.13% a'r uchaf oedd 5.88%. Roedd y cyfraddau ar gyfer benthyciadau aeddfedrwydd 20 mlynedd yn amrywio o 5.71% i 6.37% yn ystod y cyfnod, a benthyciadau aeddfedrwydd 50 mlynedd yn amrywio rhwng 5.46% a 6.24%. Mae cost benthyca tymor byr gan awdurdodau lleol eraill wedi bod yn debyg i neu ychydig yn uwch na'r Gyfradd Sylfaenol am y rhan fwyaf o'r cyfnod, gyda chyfraddau llog rhwng 4.0% a 4.5%. Fodd bynnag, fel y gwelir yn gyffredin, cododd cyfraddau'n uwch tua diwedd y flwyddyn ariannol, gyda chyfraddau o 5.0% - 7.0% yn cael eu gweld.
- 17 Mae Cod Darbodus CIPFA 2021 yn amlinellu'r ffaith na ddylai awdurdodau lleol fenthyca er mwyn buddsoddi gyda'r nod pennaf o elwa'n ariannol. Nid yw'n ddarbodus i awdurdodau lleol wneud unrhyw benderfyniad buddsoddi neu wariant a fydd yn cynyddu'r gofyniad ariannu cyfalaf ac yn arwain at fenthyciadau newydd, oni bai ei fod yn uniongyrchol ac yn bennaf gysylltiedig â swyddogaethau'r Awdurdod.
- 18 Nid yw'r Awdurdod wedi buddsoddi mewn asedau ar gyfer elw ariannol, ac mae'r holl wariant yn gysylltiedig â chyflawni swyddogaethau'r Awdurdod.
- 19 Ar 31 Mawrth 2026, roedd gan yr Awdurdod £15.76m o fenthyciadau, gostyngiad o £3.31m o'i gymharu â 31 Mawrth 2025. Darperir crynodeb o'r benthyciadau sy'n weddill ar 31 Mawrth yn [Nhabl 3A](#) isod.

**Tabl 3A: Sefyllfa o ran Benthyca**

|                                              | <b>31.3.25<br/>Balans<br/>£m</b> | <b>Symudiad<br/>Net £m</b> | <b>31.03.26<br/>Balans<br/>£m</b> | <b>31.03.26<br/>Cyfradd<br/>Gyfartalog<br/>wedi'i<br/>Phwysoli %</b> | <b>31.03.26<br/>Aeddfedrwydd<br/>Cyfartalog<br/>wedi'i Bwysoli<br/>(blynyddoedd)</b> |
|----------------------------------------------|----------------------------------|----------------------------|-----------------------------------|----------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------|
| Bwrdd<br>Benthyciadau<br>Gwaith<br>Cyhoeddus | 14.073                           | -0.317                     | 13.756                            | 4.110                                                                | 7.840                                                                                |
| Awdurdodau lleol<br>(tymor byr)              | 5.00                             | -3.00                      | 2.000                             | 6.350                                                                | 0.067                                                                                |
| <b>Cyfanswm y<br/>benthyca</b>               | <b>19.07</b>                     | <b>-3.317</b>              | <b>15.756</b>                     |                                                                      |                                                                                      |

- 20 Cymerodd yr Awdurdod ddau fenthyciad tymor byr gan yr awdurdod lleol, £5M ym mis Rhagfyr 24 a ad-dalwyd ym mis Awst 25 a £2M ym mis Mawrth 26 i'w ad-dalu ym mis Ebrill 26. Cymerodd fenthyciadau pellach gyda'r PWLB, £2M ym mis Awst 25 i'w ad-dalu erbyn 2030, £1M ym mis Hydref 25 i'w ad-dalu erbyn 2035, £1M ym mis Ionawr 26 i'w ad-dalu yn 2033 a £1.5m ym mis Mawrth 26 i'w ad-dalu 2038. Mae pob benthyciad tymor byr arall gyda'r PWLB. Bydd angen benthycia pellach yn y flwyddyn 2026/27.

**Tabl 3B: Benthyciadau hirdymor a fenthycwyd**

|                              | <b>Swm<br/>£m</b> | <b>Cyfradd<br/>%</b> | <b>Cyfnod<br/>(Blynnyddoedd)</b> |
|------------------------------|-------------------|----------------------|----------------------------------|
| Benthyciad Aeddfedrwydd PWLB | 2.00              | 4.80                 | 27                               |
| Benthyciad EIP PWLB          | 0.55              | 3.09                 | 12                               |
| Benthyciad EIP PWLB          | 3.89              | 3.91                 | 15                               |
| Benthyciad EIP PWLB          | 0.90              | 4.80                 | 10                               |
| Benthyciad EIP PWLB          | 0.86              | 4.58                 | 7                                |
| Benthyciad EIP PWLB          | 1.38              | 4.80                 | 12                               |
| Benthyciad EIP PWLB          | 0.30              | 2.81                 | 2                                |
| Benthyciad EIP PWLB          | 0.40              | 4.31                 | 3                                |
| Benthyciad EIP PWLB          | 1.40              | 4.61                 | 4                                |
| <b>Cyfanswm y benthycia</b>  | <b>11.68</b>      |                      |                                  |

- 21 Nid yw penderfyniadau benthycia'r Awdurdod yn cael eu seilio ar unrhyw ganlyniad unigol o ran cyfraddau llog, ac mae'n ceisio cynnal portffolio cytbwys o fenthycia byrdymor a hirdymor.

## **GWEITHGARWCH BUDDSODDI RHEOLI TRYSORLYS**

- 22 Mae Cod Rheoli Trysorlys CIPFA bellach yn diffinio buddsoddiadau rheoli trysorlys fel y buddsoddiadau hynny sy'n codi o lif arian yr Awdurdod neu weithgarwch rheoli risg trysorlys sydd yn y pen draw yn cynrychioli balansau y mae angen eu buddsoddi hyd nes y bydd angen yr arian parod i'w ddefnyddio ar gyfer y busnes.
- 23 Mae'r Awdurdod yn dal cronfeydd sydd wedi'u buddsoddi, sy'n cynrychioli incwm a dderbyniwyd cyn gwariant, ynghyd â balansau a chronfeydd wrth gefn a ddelir. Yn ystod y flwyddyn, roedd balansau buddsoddi'r Awdurdod yn amrywio rhwng £0.63m ac £13.73m. Mae'r sefyllfa fuddsoddi yn cael ei dangos yn [Nhabl 4](#) isod.

**Tabl 4: Sefyllfa Buddsoddi Trysorlys**

|                                  | 31.3.25     |              | 31.03.26    | 31.03.26         | 31.03.26                               |
|----------------------------------|-------------|--------------|-------------|------------------|----------------------------------------|
|                                  | Balans      | Symudiad Net | Balans      | Adenillion Incwm | Aeddfedrwydd Cyfartalog wedi'i Bwysoli |
|                                  | £m          | £m           | £m          | %                | dyddiau                                |
| Banciau a chymdeithasau adeiladu | 2.52        | 1.10         | 3.62        | 3.00-3.51        | Ar alwad                               |
| Cyfnod Penodol                   |             |              |             |                  |                                        |
| Llywodraeth Ganolog              |             |              |             |                  |                                        |
| <b>Cyfanswm y buddsoddiadau</b>  | <b>2.52</b> | <b>1.10</b>  | <b>3.62</b> |                  |                                        |

- 24 Mae Cod CIPFA a chanllawiau'r llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod fuddsoddi ei arian yn ddoeth, a rhoi sylw i ddiogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau trysorlys cyn ceisio'r gyfradd enillion neu incwm orau bosibl. Amcan yr Awdurdod wrth fuddsoddi arian yw cael y cydbwysedd priodol rhwng risg ac adenillion, gan leihau'r risg o golledion oherwydd diffygdlu a'r risg o gael incwm buddsoddi anaddas o isel.
- 25 Fel y mae'r meincnod atebolrwydd yn yr adroddiad hwn yn ei ddangos, mae'r Awdurdod yn disgwyl bod yn fenthyciwr hirdymor, ac felly gwneir buddsoddiadau trysorlys newydd yn bennaf er mwyn rheoli llif arian parod o ddydd i ddydd gan ddefnyddio offerynnau risg isel tymor byr.
- 26 Daeth Cyfradd y banc i lawr o 4.5% i 4.25% ym mis Mai, ac yna bu gostyngiad pellach i 4.00% yn Awst 2025 ac i 3.75% yn Rhagfyr 2025. Mae'r cyfraddau llog tymor byr wedi dilyn y lefelau hyn ar y cyfan. Roedd y cyfraddau ar adneuo DMADF yn amrywio rhwng 3.95% a 3.70% a chyfraddau'r farchnad arian rhwng 3.51% a 4.34%.

## **CYDYMFFURFIAETH**

- 27 Mae'r holl weithgareddau rheoli trysorlys a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn wedi cydymffurfio â'r egwyddorion yn y Cod Rheoli Trysorlys ac yn Strategaeth Rheoli Trysorlys yr Awdurdod, fel y'i cymeradwywyd. Mae gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) ddau gyfrif galwadau sy'n cael eu defnyddio i osod adneuo tymor byr, gyda Lloyds Bank a Barclays Bank. Mae'r cyfraddau llog sy'n cael eu cynnig ar adneuo trysorlys yn tueddu i fod yn fwy ffafriol; fodd bynnag, cadwyd adneuo gyda Lloyds a Barclays yn ystod y cyfnod oherwydd y gofyniad hylifedd ar gyfer prynu'r tir ar gyfer y ganolfan hyfforddi newydd.
- 28 Mae'r awdurdod hefyd yn defnyddio ei gyfrif gyda'r Swyddfa Rheoli Dyledion (DMO), gan nad yw'r Strategaeth Rheoli Trysorlys yn rhoi cyfyngiad ar faint o arian y gellir ei roi i'r DMO.

29 Dangosir cydymffurfiaeth â therfynau buddsoddi penodol yn [Nhabl 5](#) isod.

**Tabl 5: Terfynau Buddsoddi**

| Sefydliad                           | Disgrifiad                                                                                                                               | Terfyn           | 30.09.25<br>Gwirioneddol | Wedi<br>cydymffurfio?<br>Do/Naddo |
|-------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------|--------------------------|-----------------------------------|
| Banciau                             | Holl fanciau'r DU a'u his-gwmnïau sydd â sgoriau da (Fitch neu gyfwerth). Mae hyn yn cael ei ddiffinio fel hirdymor (BBB) ar hyn o bryd. | £5m              | <b>£3.62m</b>            | do                                |
| Llywodraeth Ganolog                 | Swyddfa Rheoli Dyledion (DMO)                                                                                                            | Diderfyn         | <b>0</b>                 | do                                |
| Cronfeydd Marchnad Arian (MMF)      | Dim ond ar y cyd â chyngor ar gyfer Arlingclose.                                                                                         | £1m fesul cronfa | <b>0</b>                 | do                                |
| Awdurdodau Lleol                    | Pob un ac eithrio'r rhai sy'n destun cyfyngiad treth gyngor a phraeseptau dan Ran 1 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992                   | £2m              | <b>0</b>                 | do                                |
| Cymdeithasau Adeiladu               | Cymdeithasau adeiladu sydd â sgôr (fel ar gyfer y sector bancio)                                                                         | £2m              | <b>0</b>                 | do                                |
| Cymdeithasau Adeiladu (Asedau £1bn) | Cymdeithasau adeiladu heb sgôr ond gydag asedau o £1 biliwn neu fwy.                                                                     | £2m/9 mis        | <b>0</b>                 | do                                |

30 Dangosir Cydymffurfiaeth â'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol ar gyfer dyled allanol yn [Nhabl 6](#) isod.

**Tabl 6: Dyled a'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol**

|                          | 31.03.26<br>Gwirioneddol<br>£m | Ffin<br>Weithredol<br>2025/26<br>£m | Terfyn<br>Awdurdodedig<br>2025/26<br>£m | Wedi<br>cydymffurfio? |
|--------------------------|--------------------------------|-------------------------------------|-----------------------------------------|-----------------------|
| Benthycia                | 15.756                         | 28.99                               | 30.99                                   | Ia                    |
| <b>Cyfanswm y ddyled</b> | <b>15.756</b>                  | <b>28.99</b>                        | <b>30.99</b>                            |                       |

31 Gan fod y ffin weithredol yn offeryn rheoli ar gyfer monitro yn ystod y flwyddyn, efallai y bydd achlysuron pan fydd y benthycia gwirioneddol yn fwy na'r targed hwn. Gallai hyn ddigwydd oherwydd amrywiadau yn y llif arian parod ac ni fyddai torri'r terfyn yn y byrdymor yn cyfrif fel methiant i gydymffurfio.

## DANGOSYDDION DARBODUS RHEOLI TRYSORLYS


32 Fel sy'n ofynnol gan God Rheoli Trysorlys CIPFA 2021, mae'r Awdurdod yn monitro ac yn mesur y dangosyddion darbodus canlynol o ran rheoli trysorlys.

## Meincnod Atebolrwydd

- 33 Mae'r dangosydd newydd hwn yn cymharu benthyca gwirioneddol yr Awdurdod ar hyn o bryd yn erbyn meincnod atebolrwydd a gyfrifwyd i ddangos y lefel risg isaf o fenthyca. Mae'r meincnod atebolrwydd yn offeryn pwysig i helpu i benderfynu a yw'r Awdurdod yn debygol o fod yn fenthyciwr hirdymor neu'n fuddsoddwr hirdymor yn y dyfodol, ac i addasu ei ffocws strategol a'i ddull o wneud penderfyniadau yn sgil hynny.
- 34 Mae'r dangosydd yn cynrychioli amcangyfrif o swm cronol y benthyca allanol y mae'n rhaid i'r Awdurdod ei gynnal er mwyn ariannu ei gynlluniau cyfalaf a refeniw presennol, gan gadw buddsoddiadau trysorlys ar y lefel isaf o £2.0m sy'n ofynnol i reoli llif arian parod o ddydd i ddydd.

|                                  | 31.03.25<br>Gwirioneddol<br>£m | 31.03.26<br>Gwirioneddol<br>£m | 31.03.27<br>Rhagolwg<br>£m | 31.03.28<br>Rhagolwg<br>£m |
|----------------------------------|--------------------------------|--------------------------------|----------------------------|----------------------------|
| CFR Benthyciadau                 | 31.01                          | 26.86                          | 39.50                      | 46.40                      |
| Llai: Adnoddau mantolen          | -14.46                         | -14.46                         | -17.50                     | -17.00                     |
| <b>Gofyniad benthyciadau net</b> | 16.55                          | 12.40                          | 22.00                      | 29.40                      |
| A: Lwfans hylifedd               | 2.00                           | 2.00                           | 2.00                       | 2.00                       |
| <b>Meincnod atebolrwydd</b>      | <b>18.55</b>                   | <b>14.40</b>                   | <b>24.00</b>               | <b>31.40</b>               |
| <b>Benthyciadau presennol</b>    | <b>-19.07</b>                  | <b>-15.76</b>                  | <b>-11.70</b>              | <b>-9.90</b>               |

- 35 Yn dilyn y rhagolwg tymor canolig uchod, mae'r meincnod atebolrwydd hirdymor yn rhagdybio y bydd gwariant cyfalaf cronol yn cael ei ariannu drwy fenthyca £22.0 miliwn yn 2026/27, £29.4 miliwn yn 2027/28 a £33.3 miliwn yn 2028/29. Mae'r lleiafswm darpariaeth refeniw ar wariant cyfalaf newydd yn seiliedig ar oes yr ased ar gyfer y dosbarth asedau ac incwm, gwariant a chronfeydd wrth gefn i gyd yn cynyddu gan chwyddiant o 2.5% y flwyddyn. Dangosir hyn yn y [siart isod](#) ynghyd â phroffil aeddfedrwydd benthyciadau presennol yr Awdurdod.





- 36 Mae'r graff yn dangos bod angen i'r Awdurdod fenthycha yn y blynyddoedd i ddod. Bydd gan yr Awdurdod ofyniad benthycha trwy'r adeg gan nad oes ganddo arian parod na chronfeydd wrth gefn sylweddol a dim ond mynediad cyfyngedig sydd ganddo at gyllid grant cyfalaf.
- 37 Mae'r llinell las yn cynrychioli'r angen i ariannu gwariant cyfalaf trwy fenthycha (y Gofyniad Ariannu Cyfalaf neu CFR). Mae'r llinellau coch yn cynrychioli'r angen i ariannu gwariant cyfalaf trwy fenthycha unwaith y bydd cronfeydd wrth gefn a gwargedion (neu ddiffygion) cyfalaf gweithio wedi'u hystyried – mewn gwirionedd dyma'r gwir angen i fenthycha y mae CIPFA wedi'i ddiffinio fel y Meincnod Atebolrwydd. Mae'r llinell goch doredig yn cynrychioli'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ac mae'r llinell solet yn cynrychioli'r sefyllfa ganol blwyddyn ar gyfartaledd. Mae'r rhannau llwyd yn dangos benthyciadau gwirioneddol. Pan fydd y rhan lwyd yn gostwng o dan y llinellau coch, mae'n golygu bod angen benthycha.

### Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau

- 38 Mae'r dangosydd hwn yn rheoli amlygiad yr Awdurdod i risg ailariannu. Y terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedrwydd pob benthyciad oedd:

|                            | 31.03.26<br>Gwirioneddol | Terfyn<br>Gwirioneddol | Terfyn<br>Uchaf | Terfyn<br>Isaf | Wedi<br>Cydymffurfio?<br>Do / Naddo |
|----------------------------|--------------------------|------------------------|-----------------|----------------|-------------------------------------|
| <12 mis                    | 2.0                      | 12.69%                 | 60.00%          | 0.00%          | Do                                  |
| 12 mis a <24 mis           | 1.7                      | 10.79%                 | 45.00%          | 0.00%          | Do                                  |
| 24 mis a < 5<br>mlynedd    | 1.80                     | 11.42%                 | 45.00%          | 0.00%          | Do                                  |
| 5 mlynedd a<br><10 mlynedd | 2.00                     | 12.69%                 | 75.00%          | 0.00%          | Do                                  |
| >10 mlynedd                | 8.26                     | 52.41%                 | 100.00%         | 0.00%          | Do                                  |

- 39 Mae'r cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Y dyddiad aeddfedu ar gyfer benthycha yw'r dyddiad cynharaf y gall y benthyciwr fynnu ad-daliad.

### Buddsoddiadau Rheoli Trysorlys Hirdymor

- 40 Nid oes gan yr Awdurdod fuddsoddiadau trysorlys hirdymor.

### Cyfran Costau Ariannu i'r Llif Refeniw Net

- 41 Er nad yw gwariant cyfalaf yn cael ei godi'n uniongyrchol ar y gyllideb refeniw, mae llog sy'n daladwy ar benthyciadau a'r Lleiafswm Darpariaeth Refeniw yn cael eu codi ar refeniw.
- 42 Gelwir y tâl blynyddol net yn gostau ariannu; mae hyn yn cael ei gymharu â'r ffrwd refeniw net h.y. y swm a ariennir o'r Dreth Gyngor, trethi busnes a grantiau cyffredinol y llywodraeth.

|                           | 2024/25<br>gwirioneddol | 2025/26<br>gwirioneddol | Cyllideb<br>2026/27 | Cyllideb<br>2027/28 |
|---------------------------|-------------------------|-------------------------|---------------------|---------------------|
| Costau ariannu (£m)       | 3.189                   | 4.407                   | 4.501               | 5.200               |
| Cyfran y llif refeniw net | 6.48%                   | 9.36%                   | 8.16%               | 9.2%                |

## GOBLYGIADAU

|                                                        |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |
|--------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Amcanion Llesiant</b>                               | Mae rheoli trysorlys effeithiol yn sail i amcanion llesiant hirdymor yr Awdurdod drwy sicrhau bod buddsoddiad cyfalaf mewn gorsafoedd, fflyd a seilwaith hyfforddi yn fforddiadwy, yn ddarbodus ac yn gynaliadwy. Mae cynnal cydymffurfiaeth â Chod Rheoli Trysorlys CIPFA yn cefnogi gwytnwch ariannol, gan alluogi'r Awdurdod i barhau i ddarparu gwasanaethau ymateb ac atal brys dros y tymor canolig a'r tymor hir.                                                                                                |
| <b>Cyllideb</b>                                        | Mae rheoli trysorlys effeithiol yn sail i amcanion llesiant hirdymor yr Awdurdod drwy sicrhau bod buddsoddiad cyfalaf mewn gorsafoedd, fflyd a seilwaith hyfforddi yn fforddiadwy, yn ddarbodus ac yn gynaliadwy. Mae cynnal cydymffurfiaeth â Chod Rheoli Trysorlys CIPFA yn cefnogi gwytnwch ariannol, gan alluogi'r Awdurdod i barhau i ddarparu gwasanaethau ymateb ac atal brys dros y tymor canolig a'r tymor hir.                                                                                                |
| <b>Cyfreithiol</b>                                     | Roedd yr holl weithgareddau benthyca a buddsoddi'n cydymffurfio â'r fframwaith statudol a gofynion Cod Rheoli Trysorlys CIPFA a'r Cod Darbodus.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |
| <b>Staffio</b>                                         | Dim goblygiadau staffio uniongyrchol sy'n deillio o'r adroddiad hwn.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |
| <b>Cydraddoldebau/<br/>Hawliau Dynol/y<br/>Gymraeg</b> | Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol o ran cydraddoldeb, hawliau dynol na'r Gymraeg yn deillio o'r adroddiad hwn.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |
| <b>Risgiau</b>                                         | Mae'r prif risgiau'n ymwneud ag anwadalrwydd cyfraddau llog, gofynion benthyca yn y dyfodol, a diogelwch cronfeydd a fuddsoddwyd. Caiff y risgiau hyn eu lliniaru drwy lynu wrth derfynau buddsoddi cymeradwy, dull gofalus sy'n blaenoriaethu diogelwch a hylifedd, a monitro gwrthbartion ac amodau'r farchnad yn rheolaidd. Mae'r meincnod rhwymedigaethau'n cadarnhau bod yr Awdurdod yn fenthyciwr hirdymor, gan atgyfnerthu pwysigrwydd gwaith rheoli trysorlys gweithredol parhaus a goruchwyliaeth gan aelodau. |